

**Cyfarfod Partneriaeth  
Tyfu Canolbarth Cymru**  
**Y Siambr, Neuadd y Sir, Llandrindod, Powys**  
**Ddydd Gwener, y 13<sup>eg</sup> o Orffennaf 2018**  
**10:30 – 13:10pm**

**Yn bresennol**

Rosemarie Harris **(RH)**  
Ellen Ap Gwynn **(EAG)**

David Powell **(DP)**  
Andrew Cornish  
Ann Elias **(AE)**  
Carwyn Jones-Evans  
Y Cyng. Dafydd Edwards **(Cyng. DE)**  
Y Cyng. Martin Weale **(Cyng. MW)**  
Y Cyng. Rhodri Evans **(RE)**  
Dr. Rhodri Llwyd Morgan **(RLM)**  
Eleanor Marks **(EM)**  
Emma Wilde **(EW)**  
Gareth Jones **(GJ)**  
Jane Lewis **(JL)**  
Jenni Thomas  
John Jones **(JJ)**  
Lisa Griffiths  
Matthew Williams **(MW)**  
Nigel Brinn **(NB)**  
Peter Davies MBE **(PD)**  
Rhian Hayward **(RHayward)**  
Rob Halford **(RHalford)**  
Rob Holt **(RH)**  
Rowland Rees-Evans **(RRE)**  
Sue Darnbrook **(SLD)**  
Vanessa Naughton  
Mike Shaw **(MS)**

Arweinydd, Cyngor Sir Powys (Cadeirydd)  
Arweinydd, Cyngor Sir Ceredigion (Is-  
Gadeirydd)  
Prif Weithredwr, Cyngor Sir Powys  
Coleg Sir Gâr  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  
Cyngor Sir Ceredigion  
Cyngor Sir Powys  
Cyngor Sir Ceredigion  
Prifysgol Aberystwyth  
Llywodraeth Cymru  
Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth  
Cyngor Sir Powys  
Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol  
Cyngor Sir Powys  
Llywodraeth Cymru  
Cyngor Sir Powys  
Ffederasiwn Busnesau Bach  
Cyngor Sir Powys  
Undeb Amaethwyr Cymru  
Prifysgol Aberystwyth  
Llywodraeth Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Twristiaeth Canolbarth Cymru  
Cyngor Sir Ceredigion (ar ran Eifion Evans)  
Llywodraeth Cymru  
Tîm Ymgysylltu Rhanbarthol Canolbarth  
Cymru

## Hefyd yn bresennol

- Fiona Clancy – Riversimple Movement Ltd (yn bresennol yn ystod y cyflwyniad yn unig)
- Julia Chesney Roberts - Riversimple Movement Ltd (yn bresennol yn ystod y cyflwyniad yn unig)
- Peter Williams, Llywodraeth Cymru
- Peter Morris - Cyngor Sir Powys
- Seren Jones – ysgrifennu nodiadau – Cyngor Sir Ceredigion

<b>1.</b>	<b>Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau</b>	
	<p>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a dywedodd pawb bwy yr oeddent.</p> <p>Cafwyd ymddiheuriadau oddi wrth y bobl ganlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"><li>• Ann Watkin – Llywodraeth Cymru</li><li>• Arwyn Watkin – Hyfforddiant Cambrian</li><li>• Ceri Stephens – Grŵp Gweithgynhyrchu'r Canolbarth</li><li>• Cyng. Dafydd Meurig – Cyngor Sir Gwynedd</li><li>• Cyng. Dyfrig Siencyn – Cyngor Sir Gwynedd</li><li>• Cyng. Myfanwy Alexander – Cyngor Sir Powys</li><li>• Eifion Evans – Cyngor Sir Ceredigion</li><li>• Emyr Williams – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri</li><li>• Hywel Davies – Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant</li><li>• Mr. Julian Atkins, Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog</li><li>• Peter Howells, NFU</li><li>• Peter Skitt – Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda</li><li>• Rhodri Griffiths – Llywodraeth Cymru</li><li>• Russell Hughes-Pickering – Cyngor Sir Ceredigion</li></ul>	
<b>2.</b>	<b>Datgan Buddiant</b>	
	<p>Datganodd Eleanor Marks, Llywodraeth Cymru, fuddiant dan Eitem 5 yr Agenda, 'Cyflwyniad am Fand Eang a Chyfathrebu Symudol yn y Rhanbarth'; Llywodraeth Cymru.</p>	
<b>3.</b>	<b>Y Cofnodion a'r Camau Gweithredu ers cyfarfod diwethaf y Bartneriaeth ar y 13eg o Ebrill 2018</b>	
	<p>Awdurdodwyd y Cadeirydd i gymeradwyo Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg o Ebrill 2018. Cynigiodd y Cyng. MW, Cyngor Sir Powys, eu bod yn gywir ac eiliwyd hynny gan RRE, Twristiaeth Canolbarth Cymru.</p>	
<b>4.</b>	<b>Cyflwyniad gan Riversimple Movement Ltd</b>	
	<p>Croesawyd Fiona Clancy (FC) a Julia Chesney Roberts (JCR) o Riversimple Movement Ltd, (Riversimple) i'r cyfarfod i roi cyflwyniad am eu busnes cynhyrchu ceir trydan cell danwydd wedi'u pweru â</p>	

hydrogen a leolir yn Llandrindod.  
Atodir copi o'r cyflwyniad isod:-



RS\_GrowingMidWales  
180713.pdf

Rhodddwyd sylw yn y cyflwyniad i'r pwyntiau hyn:-

- Diben Rivesimple, sef mynd ati mewn ffordd systemig i liniaru effaith trafndiaeth bersonol ar yr amgylchedd;
- Datblygu ceir glân sy'n fforddiadwy, yn gyfleus ac yn hwyl eu gyrru;
- Pam mae angen i'r farchnad gynrig rhywbeth sy'n wahanol i gerbydau petrol neu ddisel;
- Trosolwg o'u car Riversimple Rasa;
- Y cerbydau sy'n cael eu gwerthu ar gynllun debyd uniongyrchol misol sy'n cwmpasu'r holl gostau, y gwasanaeth a'r gwaith cynnal a chadw, ac ati;
- Eu bwriad i ddatblygu fan fasnachol ysgafn.

Diolchodd Riversimple i Gyngor Sir Powys ac i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth hyd yma wrth iddynt sefydlu'r busnes.

Yna, rhodddwyd cyfle i'r Aelodau ofyn cwestiynau a chael trafodaeth:-

Holodd JJ beth oedd yr heriau mwyaf o ran denu pobl â sgiliau i ardal wledig fel Llandrindod?


Dywedodd FC eu bod yn cydweithio â nifer o golegau a phrifysgolion a'u bod yn cynnig cynlluniau prentisiaeth sy'n denu nifer o ymgeiswyr.

Gofynnodd EM beth oedd sylwadau'r defnyddwyr. Nododd FC fod y sylwadau'n gadarnhaol a bod pobl yn llawn cyffro am y datblygiad.

Holodd RRE a fydd Riversimple yn awyddus i wneud rhagor yng Nghanolbarth Cymru. Sut y bydd hyn yn gweithio? Dywedodd FC eu bod yn cynnal trafodaethau â Chyngor Sir Powys i sefydlu'u safle gweithgynhyrchu cyntaf yn y Sir.

Dywedodd FC y bydd safle ail-lenwi yn cael ei dreialu yn y Fenni.

Holodd EAG a all Riversimple gael gafael ar gyflenwadau o fewn pellter rhesymol i Landrindod. Cadarnhaodd FC fod yr holl gyflenwadau i'w cael yn y Deyrnas Gyfunol ar hyn o bryd. Mae rhagor o gwmnïau moduro yn symud i Gymru a bydd hyn yn y pen draw yn

	<p>dod â rhagor o gyflenwyr i Gymru. Holodd AE a oedd Riversimple wedi ystyried rhentu'r car i glybiau ceir. Dywedodd FC y byddent yn hapus i gael clybiau ceir ymhlith eu cwsmeriaid. Gallent rentu'r car am gyfnod a'i ddefnyddio fel y gwelent yn dda.</p> <p>Dywedodd FC fod y GIG a Chyfoeth Naturiol Cymru wedi mynegi diddordeb yn y car yn rhan o'u cynlluniau rhannu ceir.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i Fiona Clancy ac i Julia Chesney am eu cyflwyniad diddrol a chyffrous i'r Bartneriaeth heddiw.</p>	
<p><b>5.</b></p>	<p><b>Cyflwyniad am Fand Eang a Chyfathrebu Symudol yn y rhanbarth; Llywodraeth Cymru</b></p>	
	<p>Roedd Peter Gwyn Williams (PGW), Llywodraeth Cymru, yn bresennol i roi cyflwyniad am Fand Eang a Chyfathrebu Symudol yn y rhanbarth.</p> <p>Atodir copi o'r cyflwyniad isod:</p> <div data-bbox="347 860 411 922" style="text-align: center;">  </div> <p>20180709 - Growing Mid Wales - ICT Infrac</p> <p>Cafwyd trosolwg o brosiect 'Symud Cymru Ymlaen 2016-2021' Llywodraeth Cymru i "Ddod â phobl at ei gilydd yn ddigidol drwy gynnig band eang cyflym a dibynadwy i bob eiddo yng Nghymru".</p> <p>Codwyd y materion canlynol:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Yr hyn fydd yn digwydd ar ôl y Rhaglen Band Eang Cyflym lawn a'r cyllid sydd ar gael;</li> <li>• Manylion Band Eang Cyflym lawn (30Mbps+);</li> <li>• Manylion Band Eang Gwibgyswllt (100Mbps+);</li> <li>• Manylion cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru i wella cysylltedd ffonau symudol;</li> <li>• Sut y byddant yn ceisio gwella darpariaeth ffonau symudol a chapasiti i gwsmeriaid;</li> <li>• Manylion y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys newydd (Y Swyddfa Gartref);</li> <li>• Manylion Safleoedd Ardal Estynedig y Gwasanaethau Symudol;</li> <li>• Gwybodaeth am 'Y Rhyngrwyd Pethau'.</li> </ul> <p>Yna, cafwyd cyfle i ofyn cwestiynau ac i gael trafodaeth.</p> <p>Gofynnodd RE pam fod Llywodraeth Cymru yn rhoi blaenoriaeth i</p>	

	<p>eiddo gwledig pan nad oes gan rai pentrefi fynediad o gwbl am fod y cabinet wedi cyrraedd ei gapasiti llawn. Nododd RE fod busnesau'n ei chael hi'n anodd mewn ardaloedd gwledig.</p> <p>Roedd PGW am gael gwybod ymhle yn union yr oedd yr ardaloedd hyn am fod Llywodraeth Cymru yn cadw llygad fanwl ar y pentrefi hynny sydd â phroblemau capasiti.</p> <p>Gofynnodd EAG pam nad oedd trawsrwydweithio data ar gael ym Mhrydain eto?</p> <p>Dywedodd PGW fod rhai cwmnïau yn y Deyrnas Gyfunol sydd bellach yn cynnig cardiau SIM sy'n galluogi trawsrwydweithio data yn y Deyrnas Gyfunol.</p> <p>Gofynnodd y Cyng. DE sut y mae Llywodraeth Cymru yn hysbysu cymunedau ynglŷn â gwahanol wasanaethau a thechnolegau?</p> <p>Dywedodd PGW y bu'r Llywodraeth yn anfon llawer o ddeunydd at drigolion drwy'r post yn y gorffennol a'i bod hefyd ar fin cychwyn ar ymgyrch farchnata sydd wedi'i thargedu.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i PGW am ei gyflwyniad heddiw. Dywedodd PGW y byddai'n fwy na pharod i drafod pryderon neu gwestiynau'r Aelodau ar ôl y cyfarfod heddiw.</p>	
<p>6.</p>	<p><b>Derbyn diweddariad ynghylch cynnydd gwaith ymgyngorol AECOM; 'Rhaglen o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth'.</b></p>	
	<p>Rhoddodd GJ ddiweddariad ynghylch cynnydd gwaith ymgyngorol AECOM hyd yma. Penodwyd AECOM ar ran y Bartneriaeth i ddatblygu rhaglen o ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn creu Cynllun Gweithredu Economaidd Rhanbarthol.</p> <p>Dywedodd GJ fod y diweddariad heddiw yn cynnwys yr Adroddiad Gwaelodlin drafft sydd i'w weld yn Atodiad A ac sy'n rhoi crynodeb drafft o'r materion allweddol cyffredinol a'r cyfleoedd a nodwyd yn bennaf drwy'r sylfaen dystiolaeth.</p> <p>Nododd GJ fod sawl digwyddiad ymgysylltu â rhanddeiliaid wedi digwydd. Yn dilyn trafodaeth ynghylch y weledigaeth sy'n cael ei datblygu i'r rhanbarth mewn gweithdy a gynhaliwyd ar y cyd rhwng y Tyfu Canolbarth Cymru ac AECOM ar y 14eg o Fehefin 2018, cyflwynodd GJ y datganiad gweledigaeth hwn:-</p> <p><b>“Bydd Canolbarth Cymru yn rhanbarth gwledig ffyniannus ac unigryw o ran ei diwylliant, a fydd yn sicrhau twf economaidd</b></p>	

	<p><b>cynaliadwy a'r ansawdd bywyd orau i'w breswylwyr, wedi'i sbarduno gan arloesedd technolegol, addysg o ansawdd uchel, cysylltedd a swyddi."</b></p> <p>Datganodd yr Aelodau eu cefnogaeth i'r weledigaeth hon. Fodd bynnag, gofynnodd PD o Undeb Amaethwyr Cymru a fyddai modd cynnwys y gair 'dwyieithog' er mwyn dangos bod dwyieithrwydd yn bwysig i ranbarth Canolbarth Cymru. Nodwyd hyn.</p> <p>Y camau nesaf:-</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cynnal arolwg ar-lein ar y cyd â datganiad i'r wasg, negeseuon ar y cyfryngau a'r rhwydweithiau cymdeithasol ynghyd ag ymgyrch bostio uniongyrchol, er mwyn gwahodd rhagor o'r sector ac o sefydliadau preifat ar draws y rhanbarth i gyfrannu.</li> <li>• Bydd y camau dilynol yn cael eu hystyried a bydd rhagor o ymgynghori yn digwydd â busnesau, Cwmnïau o Bwys Rhanbarthol a chynrychiolwyr o sectorau allweddol, gan gynnwys dysgu a sgiliau, amaeth, gweithgynhyrchu uwch a thwristiaeth.</li> <li>• Crëir rhestr hir o ymyriadau i'w gwerthuso ac ymgynghori yn eu cylch.</li> </ul> <p>Diolchodd y Cadeirydd i GJ am ei ddiweddariad heddiw.</p> <p><b>Cam Gweithredu: Bydd GJ yn cynnwys y gair 'dwyieithog' yn y datganiad gweledigaeth er mwyn dangos bod dwyieithrwydd yn bwysig i ranbarth Canolbarth Cymru.</b></p>	GJ
7.	<p><b>Derbyn diweddariad llafar ynghylch cyfarfodydd diweddar – Y Fargen Twf</b></p>	
	<p>Rhoddodd DP ddiweddariad yn sgil y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed o Orffennaf 2018 yn Llundain rhwng Prif Weithredwyr Powys a Cheredigion a'u swyddogion, ynghyd â swyddogion Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol, i drafod Bargaen Twf bosib i Ganolbarth Cymru. (Pwysleisiodd DP mai dim ond Bargaen Twf bosib oedd hon ar hyn o bryd).</p> <p>Nododd DP y cafwyd cyfarfod cadarnhaol a thrafodwyd y trywydd cyffredinol ar gyfer y Fargen Twf bosib. Dywedodd DP fod y Fargen Twf bosib i Ganolbarth Cymru yn edrych yn debyg i Fargen Gogledd Cymru. Nododd DP y bydd yn rhaid i Weinidogion gael sicrwydd y gall rhanbarth Canolbarth Cymru gyflawni prosiectau sylweddol.</p> <p>Nododd DP y rhoddwyd pwyslais mawr ar y sector preifat a'i fod yn un o'r gofynion allweddol ac yn sbardun ar gyfer Bargaen Twf bosib.</p>	

	<p>Dywedodd DP y cafwyd croeso cynnes i ymrwymiad y ddau Awdurdod Lleol a nodwyd eu bod wedi neilltuo cyllid ar gyfer hyn. Ychwanegodd DP y cafwyd cadarnhad mai dim ond arian cyfalaf a fydd yn dod o Lywodraeth Ganolog ac nid arian refeniw. Bydd disgwyl hefyd i'r sector preifat gyfrannu treian o'r cyllid.</p> <p>Nododd DP y bydd y Trysorlys yn ystyried ac yn cymeradwyo'r Fargen Twf a'r gobaith yw y daw cyhoeddiad erbyn diwedd 2019.</p> <p>Bydd Grŵp Strategaeth Economaidd, a fydd yn cynnwys cwmnïau preifat, yn cael ei sefydlu.</p> <p>Soniodd DP fod cyfarfodydd rheolaidd yn Llundain yn debygol wrth i'r gwaith hwn esblygu.</p> <p>Diolchodd y Cadeirydd i DP am ei ddiweddariad heddiw.</p>	
<p><b>8.</b></p>	<p><b>Cytundeb rhwng yr Awdurdodau</b></p>	
	<p>Rhoddodd SLD ddiweddariad ar ran Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, ynghylch y cynnydd a gafwyd hyd yma o ran y Cytundeb rhwng yr Awdurdodau.</p> <p>Lluniwyd drafft cyntaf o'r Cytundeb ac mae timau cyfreithiol Ceredigion a Phowys yn gweithio ar hyn o bryd ar yr ail ddrafft. Cafwyd diweddariad gan SDL ynghylch cynnwys holl Atodlenni'r Cytundeb.</p> <p>Awgryma Atodlen 1 y dylid cael trefniant cydbwyllgor heb Swyddog Monitro a Swyddog Adran 151, er y gellid cynnwys y rhain yn hwyrach. Bydd hawliau pleidleisio yn cael eu cynnwys a bydd gan bob Cyngor yr un hawliau pleidleisio. Bydd gan Gadeirydd y Grŵp Strategaeth Economaidd a Chadeirydd y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol un bleidlais.</p> <p>Mae Atodlen 2 yn disgrifio'r Grŵp Strategaeth Economaidd a'i swyddogaeth dan arweinyddiaeth y sector preifat.</p> <p>Mae Atodlen 3 yn disgrifio'r Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol a'i swyddogaeth. Bydd honno'n cael ei harwain gan Brifysgol Aberystwyth.</p> <p>Bydd meysydd eraill yn rhoi sylw i ddatrys anghydfodau, cymalau atebolrwydd, ac ati.</p> <p>Cyflwynir cytundeb drafft terfynol yn y cyfarfod Cabinet anffurfiol nesaf ar y cyd rhwng Cyngorau Ceredigion a Phowys ddechrau'r hydref.</p>	

	<b>Cam Gweithredu: Cyflwyno Cytundeb drafft terfynol rhwng yr Awdurdodau yn y cyfarfod Cabinet anffurfiol nesaf ar y cyd rhwng Cyngorau Ceredigion a Phowys ddechrau'r hydref.</b>	<b>EE/DP</b>
<b>9.</b>	<b>Derbyn diweddariad ynghylch Ymgysylltu Rhanbarthol – Chwarter 2, 2018</b>	
	<p>Cyflwynodd MS ei adroddiad diweddaru drafft a oedd yn ymwneud ag Ymgysylltu Rhanbarthol – Chwarter 2 a gylchredwyd cyn y cyfarfod. Mae'n nodi'r gwaith a gyflawnwyd yn y chwarter diwethaf.</p> <p><b><u>Galwad am Gynigion Ymchwil ac Arloesi ERDF Blaenoriaeth 1</u></b></p> <p>Dywedodd MS fod dau gynnig o ranbarth Canolbarth Cymru wedi cael blaenoriaeth wedi iddynt gyflwyno ceisiadau llwyddiannus yn sgil yr Alwad am Gynigion Ymchwil ac Arloesi a lansiwyd ym mis Tachwedd y llynedd:-</p> <ol style="list-style-type: none"> <li>1. Canolfan yr Economi Gylchol i Gymru – Ar Draws Cymru - Riversimple Movement Ltd.</li> <li>2. BEACON – Gorllewin Cymru a'r Cymoedd a Dwyrain Cymru – Prifysgol Aberystwyth</li> </ol> <p>Ateggodd MS y bydd yr holl gynigion yn cael eu hystyried gan Weithgor Traws-sector cyn diwedd y mis. Bydd y Gweithgor yn trafod yr effaith ar Ganolbarth Cymru ynghyd â'r cyfleoedd a ddaw yn sgil y cynigion hyn a'r ymatebion drafft y bydd yn rhaid i Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru gytuno arnynt.</p> <p>Nododd MS fod y proffil cyllido ar gyfer ymgysylltu rhanbarthol yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. Atgoffodd MS yr Aelodau y cafwyd digwyddiad ym mis Chwefror 2018 i ystyried llunio ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch buddsoddi rhanbarthol. Mae Llywodraeth Cymru bellach wedi cyhoeddi canlyniad yr ymgynghoriad hwnnw a bydd Cabinet Llywodraeth Cymru yn ystyried y mater yn fuan iawn.</p> <p>Cadarnhaodd RH y bydd canlyniad yr ymgynghoriad yn cael sylw yng nghyfarfod y Cabinet ar ddydd Mawrth, yr 17eg o Orffennaf 2018. Bydd gofyn i'r Cabinet gytuno ar raglen waith er mwyn creu dull o ddatblygu polisi rhanbarthol i Gymru yn y dyfodol. Gallai hyn olygu y byddai Cymru'n cael cyllid o fath arall i'w digolledu am y cyllid Ewropeaidd y bydd yn ei gollu. Pe cytunir ar hyn, byddai adrannau Llywodraeth Cymru yn cydweithio ac anrhydeddid yr ymrwymiad a gafwyd yn y ddogfen ymgynghori i geisio creu dull o ddatblygu polisi rhanbarthol ar y cyd â phartneriaid.</p> <p><b><u>Rhaglen Interreg Iwerddon yng Nghanolbarth Cymru</u></b></p>	



Cyflwynodd MS Raglen Cydweithredu Tiriogaethol Ewropeaidd Iwerddon Cymru 2014-2020 (ETC) a rhoddodd ddiweddariad byr ynghylch y cynigion y mae Prifysgol Aberystwyth yn eu datblygu. Nododd MS fod yr ardal gymwys yn cynnwys Ceredigion ond nad oedd yn anffodus yn cynnwys Powys.

### **Cronfa Cryfder mewn Lleoedd**

Nododd MS fod y Gronfa Cryfder mewn Lleoedd yn gynllun cyllido sy'n rhan o Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y Deyrnas Gyfunol. Ategododd fod sefydliadau ymchwil wedi'u gwahodd i gyflwyno Datganiadau o Ddiddordeb. Nodwyd bod Prifysgol Aberystwyth yn mynd i gyflwyno cynnig, 'Platfform Arloesi Dyfodol Amaeth (AFI)' a rhoddodd RH, o Brifysgol Aberystwyth, ragor o wybodaeth ynghylch y cynnig a fydd yn cael ei gyflwyno ar y 25ain o Orffennaf 2018.

Dywedodd RH mai'r bwriad yw cyd-leoli'r Platfform AFI ym Mhrifysgol Aberystwyth ac y bydd yn gweithredu ar draws y busnesau bwyd amaeth a ffermio niferus yng Nghanolbarth Cymru (Ceredigion a Phowys). Bydd y Platfform AFI yn dod â busnesau yng Nghanolbarth Cymru sy'n gweithredu mewn cadwyni cyflenwi bwyd, ynni a chemegol i gyswllt ag arbenigwyr rhyngddisgyblaethol mewn meysydd megis amaeth, y biowyddorau, y gwyddorau milfeddygol, deallusrwydd artiffisial a disgyblaethau synhwyro o bell/arsylwi ar y ddaear. Y bwriad yw datblygu cynhyrchion a gwasanaethau rhanbarthol mwy cystadleuol o dir amaethyddol.

Dyma amcanion y prosiect:-

- Creu ardaloedd peilot unigryw er mwyn datblygu cynnyrch a gwasanaethau ar ddaliadau iseldir ac ucheldir;
- Sicrhau y gellir amrywio defnydd tir mewn ffordd economaidd hyfyw ac esgor ar gynhyrchion a gwasanaethau amgen, ôl-garbon;
- Llwyddo i ymgorffori technolegau digidol, data mawr a diogelwch seiber mewn datblygiadau cynnyrch a gwasanaethau amaethyddol yn y dyfodol;
- Hyfforddi ac ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o gynhyrchwyr a chyflenwyr i fabwysyadau datblygiadau technolegol a galluogi cyfnewid gwybodaeth.

Nododd RH nad oeddent yn sicr ar hyn o bryd faint o swyddi y byddai'r AFI yn eu creu ond y flaenoriaeth fyddai creu a diogelu swyddi yn

	<p>ardaloedd Ceredigion a Phowys.</p> <p>Cadarnhaodd PD o Undeb Amaethwyr Cymru y byddai'n barod iawn i gynorthwyo drwy gysylltu â ffermwyr ac ati. Byddai cylchlythyr a ddosberthir gan Lywodraeth Cymru hefyd yn ffordd wych o greu cysylltiadau â ffermwyr.</p> <p>Cytunodd y Bartneriaeth i gefnogi'r cynnig y bydd Prifysgol Aberystwyth yn ei gyflwyno ar y 25ain o Orffennaf 2018 gan ei fod yn cyd-fynd â 'Fframwaith Gweithredu' Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru. Nodwyd y byddai'r Bartneriaeth hefyd yn barod i gyfrannu i'r cynnig, i waith datblygu'r cais ac ar unrhyw fwrdd ymgynghori/llywio.</p>	
<b>10.</b>	<p><b>Ystyried 'Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau De-orllewin a Chanolbarth Cymru 2018', Partneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol (RLSP)</b></p>	
	<p>Cyflwynodd JL 'Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau De-orllewin a Chanolbarth Cymru 2018' drafft i'r Bartneriaeth. Esboniodd JL fod yr Adroddiad hwn yn wahanol i'r un a grëwyd y llynedd.</p> <p>Ar gais y Bartneriaeth, cyflwynodd JL Adroddiad Blynyddol yn arbennig ar gyfer rhanbarth Tyfu Canolbarth Cymru sy'n fersiwn mwy lleol ei naws o'r Adroddiad Blynyddol a gynhyrchir ar gyfer rhanbarth De-orllewin a Chanolbarth Cymru yn ei chrynswth. Aeth JL â'r Aelodau drwyddo yn fanwl. Nododd JL mai cynllun ar gyfer eleni yn unig fydd hwn. Fodd bynnag, nododd fod Llywodraeth Cymru wedi gofyn am gynllun 3 blynedd y flwyddyn nesaf.</p> <p>Ategodd JL y cynhaliwyd ymchwil ymhlith cyflogwyr ac y cafwyd sylwadau gwych o drawstoriad o fusnesau yng Ngheredigion a Phowys.</p> <p>Dywedodd JL fod tudalen 6 yr Adroddiad yn rhoi sylw i nifer o sectorau allweddol y mae'r RLSP yn gwybod amdanynt sydd eisoes yn gweithredu yn yr ardal neu sydd yn yr arfaeth. Gofynnodd JL i'r Bartneriaeth roi gwybod iddi am unrhyw beth arall y dylid ei gynnwys.</p> <p>Nododd JL fod tudalen 8 yn canolbwyntio ar ymgysylltu â chyflogwyr. Ymgysylltwyd â 147 o fusnesau ar draws y rhanbarth.</p> <p>Ategodd JL fod yr Adroddiad yn cynnwys nifer o faterion a godwyd yn y rhanbarth a bod y materion hyn yn debyg iawn i'r rhai a godwyd gan gyflogwyr yn rhanbarth y De-orllewin. Nodwyd bod 57% o gyflogwyr yn dweud bod sgiliau a denu gweithwyr yn broblem a bod y Fargen Twf hefyd yn fater allweddol i gyflogwyr.</p> <p>Nododd JL mai gweledigaeth ddrafft oedd hon o hyd a gofynnodd am</p>	

	<p>fewnbwn y Bartneriaeth.</p> <p>Tynnodd JL sylw'r Aelodau at dudalen 16 yr Adroddiad a oedd yn ymwneud â'r Gronfa Datblygu Sgiliau. Nododd JL eu bod wedi gweithio â cholegau ar draws y rhanbarth i weld pa sgiliau yr oedd angen cyllid ychwanegol ar eu cyfer ym marn y Bartneriaeth. Cyflwynwyd ceisiadau i Lywodraeth Cymru am y £2.8 miliwn a ddyrannwyd i'r ardal. Ni chafwyd dim ymateb hyd yma.</p> <p>Mae gweddill yr Adroddiad yn rhoi sylw i agenda Twf Gwyrdd Llywodraeth Cymru a'r laith Gymraeg. Soniodd JL nad yw'r Gymraeg yn flaenoriaeth uchel i bob cyflogwr. Fodd bynnag, nodwyd bod hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg yn rhwystr y mae'n rhaid mynd i'r afael ag ef.</p> <p>Mae argymhellion yr RLSP o ran newidiadau cost niwtral mewn Addysg Bellach a phrentisiaethau yn y rhanbarth wedi'u cynnwys ar daenlen ar wahân a gylchredwyd heddiw. Gofynnodd JL i'r Aelodau roi gwybod iddi os credent fod angen cynnwys rhywbeth arall.</p> <p>Diolchodd EAG i JL am y diweddariad heddiw a nododd fod yr Adroddiad yn ddadansoddiad llawer mwy cynhwysfawr na'r hyn yr adroddwyd arno o'r blaen. Fodd bynnag, nododd nad oedd sôn yn unman am gyrsiau Addysg Uwch a'r llwybrau dysgu sydd ar gael drwy Addysg Uwch.</p> <p>Atebodd JL drwy ddweud eu bod wedi'u cyfyngu i Addysg Bellach a phrentisiaethau yn anffodus, ac nad yw eu cylch gwaith yn cynnwys cyrsiau Addysg Uwch.</p> <p>Ar ran Eifion Evans, Prif Weithredwr Cyngor Sir Ceredigion, nododd SLD fod grant £5,000 wedi dod i law i gwmpasu'r posibiladau o ran sefydlu Partneriaeth Ddysgu i Ganolbarth Cymru. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn ddigon i ariannu dogfen lawn. Mae'n bwysig bod y ddogfen yn mynd i'r afael â llwybrau dysgu a llwybrau tuag at gyflogaeth.</p> <p>Nododd RLI fod hwn yn gomisiwn cychwynol a gynigiwyd i Brifysgol Aberystwyth a bod y trafodaethau â Llywodraeth Cymru yn parhau o ran yr union gylch gwaith.</p>	
<p><b>11.</b></p>	<p><b>Ystyried ymateb Tyfu Canolbarth Cymru i'r Ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol</b></p>	
	<p>Cyflwynodd Peter Morris (PM), Cyngor Sir Powys, ymateb drafft y Bartneriaeth i'r ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ac aeth â'r Aelodau drwy'r ymateb drafft yn fanwl.</p>	

	<p>Nododd PM ei bod yn bwysig bod y Bartneriaeth yn ymateb i'r ymgynghoriad hwn am ei fod yn ofyniad dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) (a baratowyd gan Lywodraeth Cymru). Hwn hefyd fydd y cynllun datblygu cyntaf i wlad neu genedl a bydd yn amlinellu'r polisiâu cynllunio i Gymru gyfan. Bydd yn rhaid iddo weithio i ranbarth Canolbarth Cymru a bydd gofyn iddo fod yn gydnaws â'r gwaith sy'n mynd rhagddo o ran y Fargen Twf.</p> <p>Nododd EAG ei bod yn bwysig cyfleu'r neges o ran patrwm 4. Dywedodd fod yn rhaid inni frwydo'n galed i gael ein cydnabod fel rhanbarth sy'n datblygu a rhaid canolbwyntio ar yr opsiwn sy'n ymwneud â chymunedau cryf drwy Gymru.</p> <p>Cytunodd yr Aelodau ar gynnwys ymateb drafft y Bartneriaeth i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru yn amodol ar y sylwadau ychwanegol a dderbynnir ac y bydd drafft terfynol yn cael ei gylchredeg ymhlith yr Aelodau cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p>	
<b>12.</b>	<b>Derbyn adroddiad llafar ynghylch Strategaeth Gyfathrebu'r Bartneriaeth</b>	
	Nododd SLD fod gwaith datblygu Strategaeth Gyfathrebu'r Bartneriaeth yn mynd ei flaen.	
<b>13.</b>	<b>Gweithgor Cysylltedd ac Isadeiledd: Diweddariad Mehefin 2018</b>	
	<p>Cyflwynodd AE yr adroddiad a ddiweddarai'r Bartneriaeth ynghylch y Gweithgor Cysylltedd ac Isadeiledd: Mehefin 2018.</p> <p>Nododd AE y bydd KeolisAmey (y cwmni y dyfarnwyd y fasnachfaint Trafnidiaeth Cymru iddo) yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Bartneriaeth ar y 5ed o Hydref 2018.</p> <p>Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Bartneriaeth ar y 5ed o Hydref 2018 ynglŷn â'r bwriad i gael safle profi trenau yng Nghwm Nedd / Ystradgynlais.</p> <p>Nododd AE fod Adroddiad Blynyddol Midland Connect, "Routes to Growth", yn rhoi sylw i'r llwybr trawsffiniol i Ganolbarth Cymru.</p> <p><b>Cam Gweithredu: Bydd KeolisAmey (y cwmni y dyfarnwyd y fasnachfaint Trafnidiaeth Cymru iddo) yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf y Bartneriaeth ar y 5ed o Hydref 2018.</b></p>	
<b>14.</b>	<b>Unrhyw Fater Arall</b>	
	Llongyfarchodd y Cadeirydd Eleanor Marks ar gael ei phenodi'n Gyfarwyddwr OFCOM Cymru. Bydd yn dechrau yn ei swydd newydd ym mis Medi 2018.	

	Cododd LG fater bach er eglurder. Nododd LG y bu JT yn cydweithio'n agos â Riversimple Ltd a'u bod wedi cael trafodaethau â chwmni yn Rhondda Cynon Taf sydd â'r dechnoleg i greu ffibr ar gyfer cyrff y ceir. Maent yn awyddus i sefydlu'u ffatri weithgynhyrchu rywle ym Mhowys.	
	<b>Dyddiadau Cyfarfodydd y Dyfodol</b>	
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>05 Hydref 2018 am 10.30am yn Aberaeron, Ceredigion</b></li> </ul>	

**Arweinydd Cyngor Sir Powys, y Cyng. Rosemarie Harris, Cadeirydd**

DRAFT